## Cylch Gorchwyl y Pwyllgor
## Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi

Adrodd i: Senedd.

Pa mor aml: 4 gwaith y flwyddyn

*Adolygiad diwethaf y cylch gorchwyl: Mai 2021; diwigiad diwethaf: July 2021; i'w diwigio y tro nesaf: Gorffennaf 2024*

| Aelodau: | Yn mynychu: |
|---|---|
| • Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi) (Cadeirydd)<br>• Cyfarwyddwr Rhagoriaeth Ymchwil ac Effaith (Cadeirydd Arall)<br>• Deoniaid Cysylltiol Cyfadrannol dros Ymchwil, Trosgwlyddo Gwybodaeth ac Arloesi x3<br>• Pennaeth Cynllunio<br>• Pennaeth Ysgol y Graddedigion<br>• Cadeirydd Panel Moeseg Ymchwil y Brifysgol<br>• Cyfarwyddwr, YBA<br>• Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol<br>• Rheolwr Datblygu Ymchwil<br>• Rheolwr Datblygu Materion Ewropeaidd a Busnes<br>• Cynrychiolydd Undeb y Myfyrwyr<br>13 aelod.<br><br>Cworwm: 5 aelod, a rhaid bod un ohonynt yn Ddeon Cysylltiol Ymchwil Cyfadran<br><br>Fel y gwelo'r cadeirydd orau, gwahoddir cynrychiolwyri fynychu cyfarfodydd ar ran aelodau. | • Rheolwr FfRhY a Monitro Ymchwil<br>• Is-Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Gwybodaeth a Phennaeth Llyfrgelloedd<br>• Rheolwr Cynllunio Gofod, Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd<br>• Swyddog Effaith Ymchwil<br><br>Fel y gwelo'r cadeirydd orau, gwahoddir swyddogion eraill y Brifysgol, fel y bo'n priodol, i fynychu cyfarfodydd. |

Gorchwyl:

Mae'r Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi yn ymgymryd â rôl craffu a chynllunio ac yn cynghori'r Senedd ar faterion ymchwil gan gynnwys: strategaethau ymchwil Sefydliadol a Chyfadrannol; paratoi ac adolygu cyflwyniad y Brifysgol i'r FfRhY; adrodd am ddal grantiau ar gyfer grantiau allanol; adrodd am defnydd arian ymchwil mewnol; datblygu staff ar gyfer ymchwil; y rhyngwyneb rhwng ymchwil a dysgu.

---

Cylch gorchwyl:

1. I ystyried ac argymell i'w cymeradwyo gan y Senedd:

   a. Adolygiadau a newidiadau i brosesau a dulliau gweithredu rheoli ymchwil a llywodraethu.
   b. Cynlluniau datblygu amgylchedd ymchwil y Brifysgol yn unol â mentrau lleol, gwladol a rhyngwladol gan gynnwys datblygu a chefnogi ymchwilwyr.
   c. Datblygu a monitro Strategaeth Ymchwil ac Arloesi'r Brifysgol, gan gynnwys datblygu a monitro DPAion.
   d. Cyfarwyddiadau i Gyfadrannau am drefnu a rheoli ymchwil, gan gynnwys amlinellu disgwyliadau lleiaf am rolau a chyfrifoldebau y Deoniaid Cysylltiol Cyfadrannol dros Ymchwil a Phwyllgorau Ymchwil Cyfadrannau.

e. Cymeradwyo Strategaethau Ymchwil Cyfadrannol ac Adrannol
f. Adroddiadau gan y Grŵp Monitro Ymchwil, sy'n manylu sut cyflawnir amcanion ymchwil strategol Adrannau / Cyfadrannau.

2. I ystyried a meddu awdurdod i gymeradwyo ar ran y Senedd:

a. Datblygu, awdurdodi, gweithredu ac adolygu polisïau'r Brifysgol sy'n berthnasol i gyflawni Strategaeth Ymchwil ac Arloesi'r Brifysgol.
b. Cyngor gan y Brifysgol gyda'r bwriad o fanteisio cyn belled ag y bo modd ar gyfleoedd i gael noddiant a mentrau gan ddylanwadiadau allanol ar ddatblygu ymchwil, gan gynnwys CCAUC, Cynghorau Ymchwil y DG a pholisïau'r Undeb Ewropeiaidd am noddi ymchwil.
c. Datblygu dull gweithredu strategol y sefydliad at y FfRhY, ac i adolygu paratoadau a pharodrwydd Cyfadrannau / Adrannau ar gyfer y FFRhY.
d. Datblygu ymchwil rhyngddisgyblaethol ym PA.
e. Darparu mewnbwn strategol i weithrediad yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi.
f. Rhoi cyngor i Gyfadrannau / Adrannau ac i'r Ganolfan Ddatblygu Staff ac Arfer Academaidd am weithgareddau priodol mewn sefydlu, hyfforddi a datblygu staff a chanddynt cyfrifoldebau dros ymchwil, ym mhob rhan o'u gyrfaoedd.
g. Rhoi cyngor i'r Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni (SDCA) am flaenoriaethau ymchwil ar gyfer gweithgareddau codi arian.

3. I dderbyn adroddiadau er gwybodaeth a chynghori'r Senedd fel y bo'n briodol ar:

a. DPAion sy'n gysylltiedig ac Ymchwil ac Arloesi.
b. Strategaethau a dulliau i hyrwyddo gweithgareddau ymchwil, annog ceisiadau cryfion am grantiau ymchil, a hwyluso ymchwil aml- a rhyngddisgyblaethol.
c. Datblygu a chynghori am gydweithrediadau â phrifysgolion Cymreig eraill ac â sefydliadau gwladol a rhyngwladol eraill.
d. Diweddariadau cynnydd gan Grŵp Concordat Ymchwilwyr Aberystwyth sy'n goruchwylio gweithrediad y Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfaoedd Ymchwilwyr.
e. Dull gweithredu strategol y Brifysgol ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig.
f. Hyrwyddo a mewnblannu cydraddoldeb a chynhwysoldeb yng ngweithgareddau ymchwil y Brifysgol i gyd.
g. Y rhyngwyneb rhwng dysgu ac ymchwil, i sicrhau bod dysgu'n cael ei arwain gan ymchwil cyn belled ag y bo modd.

Gall y Pwyllgor sefydlu Grwpiau Gorchwyl a Gorffen am gyfnodau penodol i ymgymryd ag unrhyw rai o'r cyfrifoldebau ychod ar ei ran. Caiff aelodaeth a threfniadau adrodd y cyfryw Grwpiau Gorchwyl a Gorffen eu cytuno gan Gadeirydd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi neu'r Cadeirydd Arall priodol, gan ddibynnu ar ofynion busnes.

---

Gweithredu

Cytuna'r pwyllgor adroddiad chwarterol a'i gyflwyno i'r Senedd, sy'n amlinellu'r busnes allweddol wedi'i wneud gan y Pwyllgor yn ystod y chwarter blaenorol, gyda golwg benodol ar y penderfyniadau wedi'u gwneud gan y Pwyllgor ar ran y Senedd yn unol ag awdurdodau diprwyedig a amodir yn y cylch gorchwyl hwn.

Gall y pwyllgor ystyried materion wedi'u cyfeirio ato gan y Cyngor, gan y Senedd, neu gan Bwyllgor Gwaith y Brifysgol.

Pan gytuna'r pwyllgor argymhelliad i'r Cyngor mewn cysylltiad â'r Strategaeth Ymchwil, cyflwynir yr

argymhelliad yn y lle cyntaf i'r Senedd i dderbyn sylwadau cyn ei ystried gan y Cyngor.